Cyngor Meddygol Cyffredinol

**Nid yw'r arweiniad hwn yn newydd – mae'n dwyn ynghyd adrannau perthnasol o'n harweiniad sy'n bodoli eisoes.**

# Arweiniad i feddygon sy'n cyflawni rôl clinigwyr neu feddygon ymgynghorol cyfrifol

Un o argymhellion allweddol adroddiad Francis[1] oedd y dylai clinigydd penodol, adnabyddadwy gael eu neilltuo i bob claf sy'n cael eu hanfon i ysbyty yn Lloegr. Fe'u gelwir yn glinigydd neu'n feddyg ymgynghorol cyfrifol. Rydym yn cefnogi'r fenter hon, a fydd yn helpu i sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynu mewn ffordd gywir a bod cleifion a'r rhai y maent yn agos iddynt yn gwybod pwy y dylent siarad gyda nhw os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon am eu triniaeth.

Mae Academi y Colegau Meddygol Brenhinol wedi cynhyrchu arweiniad sy'n nodi rôl a chyfrifoldebau clinigydd neu feddyg ymgynghorol cyfrifol yn Lloegr.[2] Er enghraifft, dylai'r meddygon hyn sicrhau:

- bod arhosiad cyfan claf mewn ysbyty yn cael ei gydlynu
- bod pob claf a'r rhai sy'n agos iddynt yn gwybod pwy sy'n meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol dros eu gofal
- bod cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i glinigydd neu feddyg ymgynghorol arall pan fo hynny'n briodol.

## Cynorthwyo meddygon y maent yn cyflawni'r rôl hwn

Er mwyn cynorthwyo clinigwyr a meddygon ymgynghorol cyfrifol, a meddygon eraill y mae ganddynt rôl yn y broses o gydlynu gofal cleifion, rydym wedi dwyn ynghyd adrannau perthnasol o'n harweiniad presennol er mwyn helpu'r meddygon hyn i ddeall y safonau yr ydym yn eu disgwyl ganddynt.

Mae'n harweiniad yn berthnasol i feddygon ar draws y DU. Dylid gweithredu'r egwyddorion hyn ar gyfer y rôl a'r amgylchiadau penodol y mae pob meddyg yn eu hwynebu, gan gynnwys meddygon y maent yn ymgymryd â rôl y clinigydd neu'r meddyg ymgynghorol cyfrifol.

Mawr obeithiwn y bydd dwyn arweiniad sy'n bodoli eisoes ynghyd yn y fath ffordd o gymorth hefyd i feddygon yn Lloegr y maent yn cyflawni rôl meddyg teulu penodol ar gyfer cleifion dros 75 oed, neu rôl y clinigydd cyfrifol uwch dros glaf sy'n marw, ac i feddygon y maent yn cyflawni unrhyw rolau tebyg yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Caiff yr adrannau eu tynnu o'r dogfennau arweiniad canlynol:

- *Arfer meddygol da*[3]
- *Arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer pob meddyg*[4]
- *Dirprwyo a chyfeirio*[5]
- *Cyfrinachedd*[6]
- *Codi pryderon ynghylch diogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch.*[7]

## Cyfrifoldeb dros ofal cleifion

Rhaid i chi ddarparu gofal a gwneud gwaith meddygol o safon da.[8] Yn arbennig, rhaid i chi:[8]

- ddarparu neu drefnu cyngor, archwiliadau neu driniaeth addas yn brydlon, yn ôl yr angen
- cyfeirio claf at ymarferwr arall pan fyddai hyn yn bodloni anghenion y claf.

Nid ydych yn atebol i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) dros weithredoedd (neu ddiffyg gweithredu) y sawl y byddwch yn dirprwyo gofal iddynt neu'n gwneud cyfeiriadau iddynt.[9] Byddwch yn atebol am eich penderfyniadau i drosglwyddo gofal a'r camau y byddwch wedi eu cymryd er mwyn sicrhau na chaiff diogelwch claf ei beryglu.[9]

### Cymryd cyfrifoldeb dros barhad y gofal a ddarparir ar gyfer eich cleifion

Rhaid i chi:[10]

- rannu'r holl wybodaeth berthnasol gyda chydweithwyr sy'n ymwneud gyda gofal eich cleifion o fewn a thu allan y tîm, gan gynnwys pan fyddwch yn trosglwyddo'r gofal, pan fyddwch yn dirprwyo gofal neu pan fyddwch yn cyfeirio cleifion at ddarparwyr iechyd neu ofal cymdeithasol eraill
- sicrhau, pan fo hynny'n ymarferol, bod tîm neu glinigydd penodol wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb pan fydd eich rôl chi wrth ddarparu gofal ar gyfer claf wedi dod i ben. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig ar gyfer cleifion y mae eu galluedd yn ddiffygiol neu y maent yn agored i niwed am resymau eraill.

Pan na fydd modd i chi gyflawni eich rôl wrth gydlynu gofal cleifion – er enghraifft, oherwydd y byddwch chi ar wyliau am weddill y cyfnod pan fydd y claf yn cael eu trin, neu pan fo gofal cyfan gwbl claf wedi cael ei drosglwyddo i dîm arall – dylech sicrhau, pan fo hynny'n ymarferol, bod eich rôl wedi cael ei drosglwyddo i glinigydd neu feddyg ymgynghorol priodol arall. Dylid cofnodi hyn a'i gyfleu i'r claf ac i'r rhai y maent yn agos iddynt.

Pan na fyddwch chi yn darparu'r gofal ar gyfer eich cleifion, er enghraifft, pan na fyddwch ar ddyletswydd neu pan fyddwch yn dirprwyo gofal claf i gydweithiwr, rhaid i chi fod yn fodlon bod yr unigolyn sy'n darparu gofal yn meddu ar y cymwysterau, y sgiliau a'r profiad priodol er mwyn darparu gofal diogel ar gyfer y claf.[11]

### Cydweithio gyda chleifion, cydweithwyr a'r rhai y maent yn agos i'r claf

Rhaid i chi sicrhau eich bod yn cyfleu gwybodaeth berthnasol mewn ffordd eglur i:[12]

- gydweithwyr yn eich tîm
- cydweithwyr mewn gwasanaethau eraill yr ydych yn gweithio gyda nhw
- cleifion a'r rhai y maent yn agos iddynt mewn ffordd y gallant ei deall, gan nodi pwy y bydd modd iddynt gysylltu â nhw os bydd ganddynt gwestiynau neu bryderon.

Ni ddylech gymryd y bydd rhywun arall yn y tîm yn trosglwyddo'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer gofal claf.[13] Dylech gael cadarnhad os nad ydych yn eglur ynghylch y cyfrifoldeb dros gyfleu gwybodaeth, gan gynnwys yn ystod trosglwyddiadau, i aelodau'r tîm gofal iechyd, gwasanaethau eraill sy'n ymwneud gyda darparu gofal a chleifion a'r rhai sy'n agos atynt.[13]

Dylech sicrhau bod modd i gleifion droi at wybodaeth sy'n esbonio y bydd gwybodaeth bersonol amdanynt yn cael ei rhannu o fewn y tîm gofal iechyd, gan gynnwys staff gweinyddol a staff eraill sy'n cynorthwyo wrth ddarparu gofal ar eu cyfer, oni bai eu bod yn gwrthwynebu hynny.[14]

Rhaid i chi barchu dymuniadau unrhyw glaf sy'n gwrthwynebu'r cam o rannu gwybodaeth bersonol benodol o fewn y tîm gofal iechyd neu gydag eraill sy'n darparu gofal, oni bai y byddai modd cyfiawnhau'r datgeliad er budd y cyhoedd.[15] Dylech ystyried y gallai dangos eich enw chi yn gyhoeddus fel clinigydd neu feddyg ymgynghorol cyfrifol y claf, ynddo'i hun, ddatgelu gwybodaeth bersonol am y claf nad ydynt yn dymuno i eraill ei gwybod.

Os bydd claf yn gwrthwynebu datgeliad a ystyrir yn hanfodol er mwyn darparu gofal diogel, dylech esbonio na fydd modd i chi eu cyfeirio i gael triniaeth neu drefnu triniaeth ar eu cyfer fel arall, heb ddatgelu'r wybodaeth honno hefyd.[15]

Rhaid i chi fod ar gael mewn ffordd hwylus i gleifion a chydweithwyr sy'n ceisio gwybodaeth, cyngor neu gymorth pan fyddwch ar ddyletswydd.[16]

Dylech annog aelodau'r tîm i gydweithio a cyfathrebu mewn ffordd effeithiol gyda'i gilydd a gyda thimau neu gydweithwyr eraill y maent yn gweithio gyda nhw.[17] Os byddwch yn nodi problemau sy'n codi oherwydd cyfathrebu gwael neu gyfrifoldebau aneglur o fewn timau neu rhwng timau, dylech gymryd camau i ddelio gyda'r rhain.[17]

### Cymryd cyfrifoldeb dros ddiogelwch cleifion ac ansawdd y gofal a ddarparir i'ch cleifion

Rhaid i chi weithredu yn ddi-oed os byddwch o'r farn bod diogelwch, urddas neu esmwythdra claf yn cael ei beryglu mewn ffordd ddifrifol.[18]

- Os na fydd claf yn cael gofal sylfaenol er mwyn bodloni eu hanghenion, rhaid i chi ddweud wrth rywun y maent mewn sefyllfa i weithredu, ar unwaith.
- Os bydd cleifion mewn perygl oherwydd eiddo, offer neu adnoddau, polisïau neu systemau eraill annigonol, dylech gywiro'r mater os oes modd. Rhaid i chi fynegi eich pryder yn unol â'n harweiniad a pholisi eich gweithle. Yn ogystal, dylech wneud cofnod o'r camau yr ydych wedi'u cymryd.

Os oes gennych reswm dros gredu bod cleifion mewn perygl o farw neu ddioddef niwed difrifol am unrhyw reswm, neu y gallent fod mewn perygl o farw neu ddioddef niwed difrifol, dylech adrodd eich pryder i'r unigolyn neu'r sefydliad priodol ar unwaith.[19] Ni ddylech oedi cyn gwneud hyn oherwydd nad ydych chi mewn sefyllfa i gywiro'r mater.[19]

### Cymryd cyfrifoldeb os bydd pethau yn mynd o le

Rhaid i chi fod yn agored ac yn onest gyda chleifion os bydd pethau yn mynd o le. Os bydd claf yn eich gofal wedi dioddef niwed neu ofid, dylech chi:[20]

- gywiro'r mater (os oes modd gwneud hynny)
- cynnig ymddiheuriad
- rhoi esboniad llawn yn ddi-oed o'r hyn sydd wedi digwydd, a'r effeithiau tebygol yn y tymor byr a'r tymor hir.

Rhaid i chi ymateb yn ddi-oed ac mewn ffordd lawn a gonest pan fydd claf neu aelod o'r teulu yn gwneud cwyn am y gofal a ddarparwyd, gan ymddiheuro pan fo hynny'n briodol.[21]

### Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rhaid i chi drin cleifion mewn ffordd deg a gyda pharch. Rhaid i'r archwiliadau neu'r driniaeth a ddarparir gennych neu a drefnir gennych gael eu seilio ar yr asesiad yr ydych chi a'r claf yn ei wneud o'u hanghenion a'u blaenoriaethau, ac ar eich barn glinigol ynghylch effeithiolrwydd tebygol y dewisiadau ynghylch trin.[22]

Rhaid i chi roi'r wybodaeth y maent yn ei dymuno i gleifion, neu'r wybodaeth y mae angen iddynt ei chael, mewn ffordd y gallant ei deall. Dylech sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud, pryd bynnag y bo modd, i fodloni anghenion ieithyddol a chyfathrebu cleifion.[23] Rhaid i chi fod yn ystyrlon o'r rhai sy'n agos i'r claf, a darparu gwybodaeth a chymorth iddynt mewn ffordd sensitif ac ymatebol.[24]

Rhaid i chi ystyried ac ymateb i anghenion cleifion anabl, a dylech wneud addasiadau rhesymol i'ch arfer er mwyn sicrhau bod modd i gleifion y mae ganddynt anableddau gael gofal sy'n bodloni eu hanghenion.[25]

## Cyfeiriadau


1 Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford (2013) *Report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry* y mae ar gael trwy droi at **www.midstaffspublicinquiry.com/report**

2 Academi y Colegau Meddygol Brenhinol (2014) *Taking responsibility* y mae ar gael trwy droi at **http://www.aomrc.org.uk/doc_download/9765-taking-responsibility**

3 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/gmp**

4 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2012) *Arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer pob meddyg* y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/leadership**

5 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Dirprwyo a chyfeirio* y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/delegation**

6 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2009) *Cyfrinachedd* y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/confidentiality**

7 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2012) *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch* y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/raisingconcerns**

8 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* (paragraff 15) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/gmp**

9 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Dirprwyo a chyfeirio* (paragraff 2) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/delegation**

10 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* (paragraff 44) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/gmp**

11 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* (paragraff 45) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/gmp**

12 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2012) *Arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer pob meddyg* (paragraff 11) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/leadership**

13 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2012) *Arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer pob meddyg* (paragraff 12) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/leadership**

14 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2009) *Cyfrinachedd* (paragraff 25) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/confidentiality**

15 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2009) *Cyfrinachedd* (paragraff 27) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/confidentiality**

16 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* (paragraff 34) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/gmp**

17 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2012) *Arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer pob meddyg* (paragraff 13) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/leadership**

18 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* (paragraff 25) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/gmp**

19 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2012) *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch* (paragraff 12) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/raisingconcerns**

20 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* (paragraff 55) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/gmp**

21 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* (paragraff 61) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/gmp**

22 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* (paragraff 57) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/gmp**

23 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* (paragraff 32) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/gmp**

24 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* (paragraff 33) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/gm**p

25 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* (paragraff 60) y mae ar gael trwy droi at **www.gmc-uk.org/gmp**

Cyhoeddwyd Mehefin 2014
© 2014 Cyngor Meddygol Cyffredinol
Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750)

Cod: GMC/GDARCOC-W/0216